# PERTHYN

Hydref 2023 Rhifyn 320



*Gwelir Duw yn lliwiau'r hydref*
*pan aeddfedo'r cnwd a'r grawn,*
*mae ei roddion yn y berllan,*
*mae ei wyrth mewn sgubor lawn*

*Mae ei Ysbryd yn ymsymud*
*eto dros y cread mawr,*
*bendigedig fyddo'r Arglwydd,*
*Halelwia nef a llawr!*


(W J Gruffydd)

# Gair y Gweinidog

Dwi newydd fod yn torri'r lawnt, neu i fod yn onest, y lawnt sydd o flaen y tŷ. 'Job colomen' fyddai mam yn galw peth felly, cymhariaeth sy'n awgrymu taclusrwydd ar y wyneb ond blerwch tu hwnt i'r hyn sy'n amlwg! Gan ei bod yn addo glaw, bydd yn rhaid bodloni ar waith anorffenedig gyda'r gobaith y bydd yna ddiwrnod sych yn y dyfodol. Fel dwi wedi dweud droeon, dwi ddim yn arddwr ond yn mwynhau rhoi trefn ar laswellt a borderi a rhyw dacluso cyffredinol ac yn rhyw holi i mi fy hunan y tro yma, ai dyma fydd y tro olaf cyn y gaeaf. Fe gawsom haf bach Mihangel ar ddechrau mis Medi a thymheredd afreal o un diwrnod i'r llall ac yn ôl y gwybodusion, mae yna gyfnod tebyg ar y gorwel, ond yn gyffredinol mae'r tymor ar newid. Mae'r dydd yn byrhau, blodau'r ardd yn dechrau darfod, Cyrdde Diolchgarwch yn cael eu trefnu a rhyw naws hydrefol i'w deimlo o'r newydd. Dwi'n hoffi tymor yr hydref, gyda'i liwiau a'i arogl ac wrth fy modd yn mynd am dro ar ddiwrnod sych a thystio i fyd natur ar ei orau.

Yn dilyn ein cyfres syml ar faneri, yn ystod yr wythnosau nesaf fe fydd y faner gyda'r geiriau 'Rhoddwn ddiolch i'r Arglwydd' yn cael ei gosod ar fur blaen y capel ac yn gymorth i'r weithred o addoliad yn ystod tymor y Cynhaeaf. Gwaith wedi ei gomisiynu gan Gapel y Morfa yw'r faner yma ac yn adlewyrchu dawn a gallu y diweddar Hazel Carpenter. Y mae'n gyfoethog mewn patrwm a lliw a chynnyrch y ddaear yn ein harwain i fyfyrio ar y ddealltwriaeth o gynhaliaeth a stiwardiaeth gywir. Tra'n ysgrifennu'r ychydig eiriau yma, mae'r newyddion am drychinebau Morocco a Libya yn tristáu rhywun ac yn galw arnom i ddeall o'r newydd ystyr creawdwr mewn perthynas â chreadigaeth ac efallai i ollwng gafael yn y credoau traddodiadol, ystrydebol hynny sy'n gwneud dim synnwyr ar adegau fel hyn. Dwi ddim yn credu bod hynny'n golygu gollwng gafael yn y ddealltwriaeth o greawdwr, rhywbeth sy'n ganolog i'r ddealltwriaeth o Dduw, ond yn hytrach, ceisio deall a cheisio ailddiffinio. Dwi ddim yn credu mai dyma'r man i geisio gwneud hynny, dim ond y gwahoddiad yn ein bywydau personol

a chymuned yr Eglwys i adnabod Duw yn nhermau perthynas, i ddeall ystyr ewyllys rydd, i weld bywyd fel rhodd, a gyda hynny, y ddealltwriaeth o gyfrifoldebau a chyfleon. Fe fyddai un o weinidogion Maldwyn yn sôn am dymor yr Hydref fel tymor y 'big thanks', ond gyda'r diolchgarwch yna fe ddaw cyfrifoldebau i ddeall, i weithredu a gwasanaethu.




Ond mae yna rywbeth arall ar y faner, sef ysgub a chwpan. Wedi eu plethu i'r gwenith mae'r pabi coch, yn symbolaidd arwyddo'r alwad i gofio, mewn byd sy'n amlygu dioddefaint yn ei amrywiol ffyrdd, ac ar y gwaelod, cwpan Cymun. Eto, nid dyma'r fan i ymhelaethu, digon yw dweud bod y cyfan yn arwyddo cynhaliaeth o natur arall mewn bywyd. Y mae'n rhaid wrth y ddau, yn gorff a meddwl, yn ddarpariaeth faterol ac ysbrydol, ac o amddifadu'r ysbrydol, y perygl o greu gwacter sydd â'r potensial i ollwng gafael mewn unrhyw ddealltwriaeth o berthynas ac atebolrwydd. Efallai ddim, ond i bobl ffydd fe fyddai'n wir dweud bod bywyd i'w weld a'i ddiffinio yn nhermau cyflawnder, sy'n achosi i Dduw fod yn y canol ac felly'r ymdrech i fyw yng ngoleuni ei gariad a'i gyflawnder.

Mwynhewch harddwch y greadigaeth a chofiwch am fywydau eraill!

Eifion

## Cymdeithas Gweddi a Choffi


bore Mawrth am 10.30 o'r gloch, yn Festri'r Morfa ac ar Zoom

## Astudiaeth Ffydd a Phaned

prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

Ceir mwy o wybodaeth am cyfarfodydd gan Eifion Roberts. Mae croeso cynnes i unrhyw un sy'n dymuno ymuno â'r cyfarfodydd yma.

# BRYNLEY FRANCIS ROBERTS



Brodor o Aberdâr oedd Bryn, un o ddau o blant y diweddar Robert F Roberts a Laura Jane Roberts. Argraffydd wrth ei alwedigaeth oedd Robert Roberts, a gan fod Aberdâr yn dref amlwg yn y maes hwnnw, symudodd y ddau o ardal Caernarfon a dechrau bywyd newydd. Daeth 16, Stuart Street yn gartref, a Bethania, un o gapeli'r Methodistiaid Calfinaidd, yn gartref ysbrydol a bu dylanwad yr aelwydydd hynny yn amlwg ar gerddediad Bryn trwy gydol ei fywyd.

Mynychodd Ysgol Ramadeg y Bechgyn a'i allu academaidd yn amlwg o'r dechrau. Bu'n brif fachgen a chwaraewr rygbi medrus ac wedi cwblhau ei 'higher' ym 1947 a 48, fe ddaeth i Aberystwyth gan raddio yn y Gymraeg ym 1951. Yn dilyn cyfnod o hyfforddi ac ymchwil, bu'n rhaid iddo gyflawni ei ddwy flynedd o Wasanaeth Cenedlaethol. A hithau'n ddyddiau y 'rhyfel oer', bu Bryn wrthi'n dysgu Rwsieg er mwyn clustfeinio ar ambell neges a gallwn ddychmygu ei fod wedi cyflawni'r dasg yna gyda phob manylder a threfnusrwydd. Yn 1957, fe'i penodwyd yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Aberystwyth gan symud i Abertawe yn 1978. Yno y bu hyd 1985 pryd y cafodd ei benodi yn bennaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru a bu wrth y swydd honno hyd ei ymddeoliad yn 1994.

Amhosibl yw crynhoi mewn ychydig eiriau gyfraniad Bryn i'r Gymraeg a bywyd academaidd ein gwlad ac fe'ch anogaf i geisio a darllen y llu teyrngedau sydd wedi eu hysgrifennu iddo ynghyd â'r cyfeiriadau at ei gyfraniadau ysgrifenedig, yn llyfrau ac yn erthyglau. Bu'n diwtor caredig i'w fyfyrwyr gan rannu ei wybodaeth yn ostyngedig a thawel.

Brynley Francis Roberts, Dr Brynley Roberts, ond i ni, Bryn. Nid rhywbeth ychwanegol at fywyd oedd ffydd Bryn ond yn hytrach rhan naturiol o’r gwead yna oedd yn ei wneud y person ydoedd. Cyfrannodd yn hael at fywyd crefyddol ein cenedl, a hynny trwy ysgrifennu a golygu cyfrolau hanesyddol, llyfrau defosiynol a bu’n gadeirydd doeth ac amyneddgar ar gymaint o bwyllgorau. Fe’i hanrhydeddwyd gyda Llywyddiaeth Cymdeithasfa’r De a’r Gymanfa Gyffredinol a byddwn yn dragwyddol ddyledus iddo am ei waith yn sicrhau cyhoeddi *Caneuon Ffydd*, ein llyfr emynau cydenwadol. Y cyfan yn cael ei gyflawni yn dawel heb unrhyw rodres na sylw oherwydd un fel yna oedd Bryn. Ond fe gafodd pobl y Morfa’r fraint o’i adnabod mewn perthynas wahanol. Bu’n flaenor ers 1965, yn athro Ysgol Sul cydwybodol a threfnus, yn ddisgybl gwylaidd yn y dosbarth Beiblaidd, ac yn aelod ffyddlon oedd yn gweld gwerth addoliad a myfyrdod, yn un o sylfaenwyr y Morlan, a lle bynnag oedd Bryn, felly Rhiannon. Bu’r ddau’n caru ers dyddiau ieuenctid, carwriaeth arweiniodd at briodas a theulu a bu’r uniad yn un llawn dealltwriaeth a chefnogaeth. Roedd Hengwrt yn aelwyd gynnes a chroesawgar, ac felly, cymaint oedd ei adnabyddiaeth o bobl a chymaint yr atgofion.

Wedi blynyddoedd o salwch, salwch wynebodd gyda dewrder a ffydd, bu farw’n dawel yn Ysbyty Bronglais.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Rhiannon, Rolant a Maredudd a’u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Bu’r angladd yng Nghapel y Morfa ar 4 Medi gyda’r Parch Eifion Roberts, Miss Gwerfyl Pierce Jones a’r Parchedigion Pryderi Llwyd Jones a Nan Wyn Powell-Davies yn gwasanaethu.

# Newyddion Capel y Morfa

**Croesawu aelodau newydd**
Llawenydd yw croesawu Robin Huw Bowen a Mair Jones (Capel Ebeneser) yn aelodau yng Nghapel y Morfa. Gobeithio y byddant yn teimlo'n gartrefol yn ein plith. Maent eisoes yn cyfrannu at ein haddoliad ac yn rhan o'n cymdeithas.

**Cofion a dymuniadau gorau**
Anfonwn ein cofion at Greta Appleton, Anne Edwards, Mair Griffiths a Gethin Jones a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at ein aelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal. Erbyn hyn mae Anne Edwards wedi symud i Ysbyty Tregaron ac anfonwn ein cofion ati.

Dymunwn yn dda i'r ieuenctid sydd yn dechrau pennod newydd yn eu bywyd mewn coleg, mewn gwaith neu wrth wynebu her newydd.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â'n teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf a chofiwn amdanynt yn ein gweddïau:

Rhiannon Roberts ar farwolaeth ei phriod, Dr Brynley Roberts, a hefyd â'r meibion, Rolant a Maredudd, a'u teuluoedd.

Anna Williams sydd wedi colli ei mab, Steffan, trwy ddamwain yn Llydaw, â Jac ar golli ei frawd, ac yn meddwl am Janet Sutton, chwaer Anna, a John Williams, ei brawd, a'r teulu i gyd ar yr adeg yma.

Roy a Mary James a'r teulu ar farwolaeth brawd Roy, sef Lyn James, Cross Hands.

Ac â theulu y diweddar Mrs Rhiannon Morgan, Min-y-Bryn, sef Brian ac Eirlys sydd wedi colli eu Mam.

**Agor y Llyfr**

Daeth nifer dda ynghyd o ardal Aberytwyth a'r Cylch i Festri'r Morfa ar nos Fawrth 9 Medi i gael cyflwyniad i adnoddau newydd *Agor y Llyfr* ac i dderbyn hyfforddiant gan Sarah Morris, swyddog cyswllt Cymdeithas y Beibl. Edrychir ymlaen at ddychwelyd i'r ysgolion i gyflwyno storïau o'r Beibl.




**Croeso Cynnes**

Mae'r Morlan wedi ail-agor ar ôl y gwyliau ar gyfer y Croeso Cynnes bob dydd Mercher, 11-2 o'r gloch. Mae croeso i unrhywun sy'n dymuno troi mewn am baned, sgwrs a chawl. Croesewir gwirfoddolwyr newydd hefyd yn ychwanegol at y rhai presennol.

# Cinio Bara a Chaws yng Nghapel y Morfa

Bydd Cinio Bara a Chaws y mis hwn yn cael ei gynnal yn festri'r Morfa, ar **ddydd Llun, 2 Hydref**, a hynny rhwng **12.00 ac 1.30 o'r gloch**.
Dewch i gefnogi!
Croeso cynnes i bawb!

# Newyddion Ebeneser

**Gwasanaethau**

Cynhaliwyd gwasanaethau yn Ebeneser ar 20 Awst ac ar y Sul cyntaf ym Medi o dan ofal ein gweinidog, y Parch Eifion Roberts.
Gweinyddwyd y Cymun yn y ddau wasanaeth.
Edrychwn ymlaen at y Gwasanaeth Cymun ar 1 Hydref a'r Gwasanaeth Diolchgarwch ar brynhawn Sul, 15 Hydref

**Croesawu Aelod Newydd**

Llawenydd oedd croesawu a derbyn Mrs Mair Jones, Llanfarian yn aelod o Gapel y Morfa yn y gwasanaeth yn Ebeneser ar brynhawn Sul, 3 Medi. Mae Mair yn ffyddlon yn y gwasanaethau yn Ebeneser, yn gyn-aelod o Gapel Gosen ac yn chwaer i Mrs Hilda Williams.

**Cydymdeimlo a chofion**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Ron Lewis a'r teulu ar farwolaeth Sylvia, ac anfonwn ein cofion yn arbennig at Ron sydd yn parhau yn yn ysbyty. Anfonwn ein dymuniadau gorau hefyd at Llinos Hughes ac eraill sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl.

.

**Pwyllgor Cenhadol Chwiorydd**
**Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro**

Cynhelir cyfarfod yng Nghapel Bronant
ddydd Sadwrn, 7 Hydref 2023 am 2.00 y.p.
Ceir anerchiad gan Delyth Morgans Phillips, Talsarn ar y thema 'Emynwyr Ceredigion' a chyflwyniad ar y llyfryn *Bywyd yn Iesu Y Wir Winwydden* gan Sarah Morris, Llandysul.

Dewch a chopi o Caneuon Ffydd gyda chi os gwelwch yn dda.
Bydd casgliad a phaned yn dilyn y cyfarfod.
Croeso cynnes i frodyr a chwiorydd.
Os oes angen cludiant cysylltwch ag Eleri Davies os gwelwch yn dda.

# SULIAU HYDREF 2023

**Blaenor y Mis: Deian Creunant**

| | |
|---|---|
| 1 Hydref | Eifion Roberts (Cymun) |
| 8 Hydref | Ffred Ffransis |
| 15 Hydref | Eifion Roberts |
| 22 Hydref | Aled Davies |
| 29 Hydref | Delyth Morgans Phillips |

**Blodau – Hydref 2023**

| | |
|---|---|
| 1 Hydref | Eirwen Lewis a Mair Hughes |
| 8 Hydref | Dolig, Margaret, Ann |
| 15 Hydref | Carys Davies a Gwyneth Clwyd |
| 22 Hydref | Nia Mair |
| 29 Hydref | Nia a Meurig Royles |



Bore Sul,  15 Hydref  am 10 o'r gloch

**Gwasanaeth Diolchgarwch o dan ofal Yr Ysgol Sul**

Thema: Dŵr

Casgliad tuag at Water Aid

Brecwast o 9.15 – 10.00 o'r  gloch yn y festri

Derbynnir yn ddiolchgar roddion o wyrddni, blodau neu ffrwythau ar gyfer yr addurno erbyn 10 o'r gloch, bore Sadwrn 14 Hydref

a gwerthfawrogir bob cymorth.

# Penweddig yn 50!



Cafwyd dathliad arbennig ddydd Sadwrn 16 Medi 2023, i nodi pen-blwydd Ysgol Gyfun Penweddig yn 50. Mae nifer ohonom yn cofio'r frwydr fu i'w sefydlu, a'r llawenydd pan agorwyd y drysau am y tro cyntaf ym Medi 1973 gyda Gerald Morgan yn brifathro. Yn ystod diwrnod y dathlu, cafwyd prynhawn agored yn yr ysgol ei hun, a chyngerdd gwych gyda'r nos yng Nghanolfan y Celfyddydau, gyda pherfformiadau arbennig gan nifer o gyn-ddisgyblion yr ysgol, gan gynnwys Sam Ebenezer, Richard James, Georgia Ruth, Bethan Dudley-Fryer, Rhys a Rhodri Taylor a'r band, Roughion, Eleri Morgan ac Aled Richards. Trystan ab Owen a Nia Elin oedd yn cyflwyno'r noson a Lowri Steffan yn cynhyrchu. Noson arbennig iawn!



Mae *Perthyn* wedi gofyn i rai o aelodau a chyfeillion y Morfa am eu hatgofion a'u teimladau hwy o'u cyfnod ym Mhenweddig.

**Stephen Jones**



Mae gennyf atgofion melys iawn o fy amser ym Mhenweddig er ei fod yn nifer fawr o flynyddoedd yn ôl erbyn hyn!

Mynychais yr ysgol rhwng 1982 a 1987, ar yr hen safle ger Ffordd Ddewi. Rhaid i mi gyfaddef taw chwaraeon oedd un o fy mhrif ddiddordebau, ac felly Addysg Gorfforol oedd fy hoff bwnc. Rygbi oedd yn cael ei ddysgu'n bennaf gan Mr Stuart Lloyd a chefais fedydd tân ar ddechrau fy nhaith yn yr ysgol uwchradd. Roeddwn yn edrych 'mlaen at y gwersi bob wythnos er ei ffordd 'wahanol' o ddysgu. Yn ystod fy ail flwyddyn fe ddaeth Mr Clem Thomas i'r ysgol i ddysgu'r pwnc. Roedd y rygbi yn parhau ac roedd yn hyfforddi gymnasteg yn ogystal. Roeddwn yn ffodus i fod yn un o ffefrynnau Clem, ac felly roeddwn wrth fy modd yng nghanol y mwd ar y cae rygbi yn cystadlu yn erbyn ysgolion eraill yn rheolaidd.

Fy athro dosbarth oedd Mr Alun Jones a ni allem fod wedi cael athro gwell. Dyma ddyn hoffus iawn a oedd yn hoffi jôc a sgwrs. Er, roedd yn gallu bod yn ddigon 'strict' pan oedd angen hefyd! Doedd dim syndod fod rhaid iddo ddarllen y 'riot act' ar adegau wrth gofio am rai o'r cymeriadau oedd yn fy nosbarth!

Athrawes hyfryd arall oedd Ms Bethan Evans, Addysg Grefyddol. Athrawes dda, llawn brwdfrydedd a oedd wastad yn barod i helpu. Braf oedd ei chyfarfod eto yn ystod prynhawn dathlu'r 50 yn yr ysgol yn ddiweddar.

Erbyn hyn mae Lowri a Steffan, y plant, yn mynychu'r ysgol ac yn

mwynhau eu taith drwy’r uwchradd. Dymunaf bob llwyddiant i’r ysgol ar gyfer y dyfodol.

**Ioan Mabbutt**

Dwi bellach yn ddisgybl ym mlwyddyn deuddeg yn Ysgol Penweddig ac yn astudio Cemeg, Bioleg a Ffiseg i Lefel-A. Dros y blynyddoedd, dwi wedi mwynhau bod yn rhan o gymuned Penweddig ac wedi gwneud ffrindiau da yno. Braint oedd cael cynrychioli'r ysgol mewn amryw eisteddfodau cenedlaethol yn unigol ac fel rhan o gôr yr ysgol. Un o fy hoff atgofion mor belled oedd cael perfformio yn sioe gerdd yr ysgol - Swn y Gân.



Dwi'n mwynhau helpu yn ystod digwyddiadau'r ysgol a hyfryd oedd cael sgwrsio gyda phrifathro cyntaf Penweddig, Mr Gerald Morgan, yn ystod y Prynhawn Agored i ddathlu 50 mlynedd ers ei sefydlu nol yn 1973.

**Lowri Schiavone**



Atgofion melys iawn sydd gen i o fy nyddiau ym Mhenweddig. Doeddwn i ddim y disgybl mwyaf cydwybodol, gwneud beth oedd raid ond fawr mwy na hynny. Ond pan ddaeth hi at weithgareddau allgyrsiol a’r ochr gymdeithasol, roeddwn i ar flaen y gad. Timau hoci, pêl-rwyd, parti merched, corau SATB, teithiau cyfnewid tramor, taith dramor gyda’r côr a thaith sgïo, creu busnes Menter yr Ifanc, roeddwn wrth fy modd. Bûm yn ffodus iawn hefyd i gael bod yn rhan o gynhyrchiad *Pum Diwrnod o Ryddid* yr ysgol pan oeddwn yn y Chweched Isaf. Roedd yn brofiad bythgofiadwy cael bod yn rhan o

gynhyrchiad a oedd yn rhoi blas inni o fod yn rhan o gynhyrchiad proffesiynol trwy berfformio ar lwyfan Theatr y Werin. Do, fe ges i addysg dda ym Mhenweddig a phasio fy arholiadau TGAU a Lefel A, ond heb os, rhannu'r profiadau allgyrsiol hyn gyda fy ffrindiau sy'n aros yn y cof. Bellach mae gen i ddau fab ym Mhenweddig a bydda' i bob amser yn dweud wrthynt "Bachwch bob cyfle". Diolch Penweddig am y cyfleoedd ac ymlaen i'r hanner can mlynedd nesaf.

**Hywel Lloyd**

Un atgof sydd gen i o Benweddig yng nghyd-destun ffydd yw i mi a gweddill y flwyddyn dderbyn Testamentau gan y Gideoniaid pan oeddem ym mlwyddyn 7 neu 8 yn yr ysgol. Cafodd hyn ddylanwad mawr arnaf ac rwy'n cofio dilyn yr awgrymiadau o ddarlleniadau dyddiol. Ers hynny rwy' wedi clywed neu ddarllen tystiolaethau gan nifer o bobl a dderbyniodd Feiblau gan y Gideoniaid yn yr ysgol neu mewn sefydliadau neu glybiau eraill. Bu hyn yn ddylanwad cryf ar gyfeiriad eu bywydau. Roedd yn braf clywed yn ddiweddar fod Penweddig wedi ailgydio yn yr arfer o rannu Testamentau *Newyddion Da i Bawb* (oherwydd dyna enw newydd y Gideoniaid) ymhlith disgyblion Blwyddyn 7. Mae hyn ar ôl nifer o flynyddoedd lle roedd gwrthwynebiad i rannu'r Beiblau. Ein gweddi yw y bydd y plant yn darllen y Testamentau ac y caiff hyn ddylanwad cadarnhaol ar eu bywydau.

**Garmon Gruffudd**



Drafftiog, cyfyng, hynafol, blinedig, anaddas a digysur. Dyna ambell i ansoddair y gellid eu defnyddio i ddisgrifio hen safle Ysgol Penweddig. Ond yn wahanol i'r holl ysgolion modern ac unffurf sy'n cael eu codi y dyddie yma, roedd yna lond berfa o gymeriad yn perthyn i'r lle. Roedd hyn yn wir am yr athrawon a'r disgyblion hefyd ac i neb yn fwy na Condor y gofalwr, ein gwrth arwr ni i gyd.

I fi yr uchafbwyntiau oedd chwarae squares ar y cyrtiau tennis amser cinio a gwersi arlunio yr artist hynaws John Rowlands, cyfle i roi'r byd yn ei le am awr. Yr isafbwynt oedd cael dapsen am anghofio fy sgidiau rygbi. Yn anffodus dwi dal yn methu tynnu llun ac mae nghof fel rhidyll o hyd, ond rwy'n prysuro i bwysleisio nad bai yr ysgol mo hynny.

**Meleri Macdonald**

Deugain mlynedd yn ôl, gwisgais y crys gwyrdd, y tei streips glas a gwyrdd a'r sgert A-line nefi (dim trywsusau i ferched bryd hynny!) am y tro cyntaf. Rwy'n cofio teimlo'n hynod o smart ar y pryd, a manteisiodd criw ohonom ar ein rhyddid am awr ac ugain munud amser cinio i fynd i'r dref a dychwelyd i'r Ysgol Gymraeg ar Ffordd Alexandria er mwyn rhoi cyfle i'n cyn-athrawon (Mary Morris ac Eirian Evans yn eu plith) ein hedmygu! Ond dros y blynyddoedd, fe laciodd cwlwm y tei, ac fe ddisodlwyd y sgert 'swyddogol' gan rai tynnach, mwy ffasiynol. A gan fod yr 80au yn gyfnod cyffrous yn wleidyddol, dechreuais ychwanegu bathodynnau amrywiol at fy siwmper – Cymdeithas yr Iaith, CND a Gwrth-apartheid yn bennaf.

Pan oeddwn yn y flwyddyn gyntaf rwy'n cofio gweld poster yn y cyntedd wrth y neuadd yn hysbysebu y byddai cangen Penweddig o Gymdeithas yr Iaith yn cyfarfod yn ystafell B4 amser cinio. Roeddwn yn benderfynol o ymuno, ac yn dychmygu y byddai'r ystafell yn llawn darpar ymgyrchwyr brwd. Ond nid felly y bu hi mewn gwirionedd - dim ond fi a Deian Creunant oedd yno. Gan fod Deian yn hŷn na fi (ac mai fe oedd wedi galw'r cyfarfod) fe wnaethom gytuno i'w ethol yntau yn gadeirydd y gangen, ac fe gytunais i fod yn ysgrifennydd. A dyna'r unig benderfyniad, o'r hyn dwi'n ei gofio – ac ni fu cyfarfod pellach!

Roeddwn yn ffodus iawn o gael nifer o athrawon gwych – gormod i'w henwi – ond mae'n rhaid dweud bod Bethan Evans, Add. Gref. wedi cael dylanwad enfawr arna i a'r ffordd dw i'n gweld y byd. Rwy'n dal i gofio ein trafodaethau am bopeth dan haul yn ein gwersi, gan grwydro ymhell o'r cwricwlwm! Byddem yn trafod gwleidyddiaeth, heddychiaeth (cyfnod y rhyfel oer), apartheid (cyn rhyddhau Nelson

Mandela), hawliau pobl LGBTQ+ a phob math o faterion moesol eraill. Fe agorodd fy meddwl, a'm hannog i feddwl dros fy hunan. Cefais fy ysbrydoli ganddi hefyd i gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol y tu allan i'r ysgol. Ar ben hynny, roedd ei straeon doniol yn gwneud i ni chwerthin nes ein bod yn ysgwyd.



2. Criw Penweddig Llun: Arvid Parry-Jones

Diolch iddi hi y sefydlwyd grŵp CND Ysgol Penweddig, a thrwy hynny y daeth y cyfle i fi fod yn rhan o daith heddwch yr Urdd i'r Cenhedloedd Unedig yng Ngenefa yn 1987. Roedd 18 ohonom i gyd – 9 o Benweddig dan ofal ein prifathro, Gerald Morgan, a 9 arall o Aelwyd y Parc, y Bala. Cawsom brofiad anhygoel, yn casglu 20,000 o enwau ar ddeiseb heddwch dros gyfnod o fisoedd cyn eu cludo i San Steffan i ddechrau, ac yna ymlaen i'r Cenhedloedd Unedig. Mae'r cyfan wedi'i gofnodi ar raglen Bilidowcar sy'n siŵr o fod yn rhywle yn archifau'r BBC!

Digwyddiad arall sy'n aros yn y cof yw ymweliad cynrychiolydd o weinyddiaeth P.W. Botha yn Ne Affrica, a oedd ar daith o amgylch ysgolion yn ceisio 'cyfiawnhau' cyfundrefn apartheid ei lywodraeth. Rwy'n siŵr iddo ddifaru dod i siarad â'n dosbarth ni, fu'n ei herio ac yn

dadlau ag ef drwy gydol y sesiwn ar y grisiau tu allan wrth y cyrtiau tenis. Roedd un o'm cyd-ddisgyblion yn gallu codi achosion unigolion penodol oedd yn y carchar, hyd yn oed, gyda Bethan Evans yn gwenu'n fodlon arnom y tu ôl iddo.

Felly pan fydd rhywun yn gofyn i ni feddwl am athro sydd wedi creu argraff, byddaf yn meddwl yn syth am Bethan Evans. Rwy'n hynod o ddiolchgar iddi, ac rwy'n gobeithio ei bod yn gwybod faint mae'n ei olygu i fi.

## Cymdeithas y Morfa 2023--24

A hithau'n flwyddyn ysgol newydd, daeth yn amser ailgydio yng ngweithgareddau'r Gymdeithas. Y swyddogion am eleni yw:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Arwel Jones |
| Is-gadeirydd: | Robin Huw Bowen |
| Ysgrifennydd: | Nest Gwilym |
| Is-ysgrifennydd: | Nia Mair Gruffydd-Williams |
| Trysorydd: | Ifor Davies |

Mae'r pwyllgor wedi trefnu rhaglen ddifyr ac erbyn i chi ddarllen hwn, bydd y cyfan eisoes wedi cychwyn nos Lun 25 Medi, pan fu Deian Creunant yn holi Tomi Morgan. Dyma'r nosweithiau sydd wedi'u trefnu o hyn hyd at y Nadolig, cewch glywed am weddill y nosweithiau eto (pob noson i gychwyn am 7 oni nodir fel arall).

| | |
|---|---|
| Llun 9 Hydref | Meleri Wyn James |
| Llun 23 Hydref | Diolchgarwch gyda'r Parch. Peter Thomas |
| Llun 6 Tachwedd | Ellen ap Gwynn |
| Llun 20 Tachwedd | Jamie Medhurst **(am 2 o'r gloch)** |
| Llun 4 Rhagfyr | Carolau a Darlleniadau'r Nadolig.<br>Cyd-ganu carolau gyda Bethan Bryn |

Pris rhaglen am y flwyddyn yw £5 – ar werth gan Ifor Davies



# Gweddi ar gyfer dioddefwyr Morocco (Cymorth Cristnogol)



Dad, ein noddfa yng nghanol helbul.
Dywedaist wrthym am weddïo bob amser ac i beidio â cholli gobaith.
Cofiwn yn ein gweddïau am ein cymdogion ym Morocco.

Gweddïwn y byddi'n cysuro'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan y daeargryn.
Dros y rhai sydd wedi colli anwyliaid, eu cartrefi a'r cyfan sy'n gyfarwydd.
Rho iddynt gysur yn eu galar, tyrd â iachad iddynt yn eu poen a chymorth yn eu hangen.

Gad i'r rhai sydd mewn angen wybod nad yden nhw ar eu pen eu hunain;
Boed i'th oleuni lewyrchu drwy'r tywyllwch,
A dod â gobaith a nerth.

Gweddïwn am ddarpariaeth i gymunedau
sydd bellach yn wynebu dyfodol ansicr.
Agor ein calonnau,
A boed iddynt fod yn llawn tosturi.

Bydd yn agos at y rhai sydd dy angen heddiw.
Yn enw Iesu Grist, Amen

****************

Golygyddion y rhifyn hwn yw Gwenan a Nest. Hwy hefyd sy'n gyfrifol am rifyn Tachwedd. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw i Gwenan neu Nest **erbyn 17 Hydref 2023 fan bellaf:**
gwenancreunant@gmail.com / nestgwilym@gmail.com

# Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023

Cafwyd Eisteddfod i'w chofio yn Llŷn ac Eifionydd ddechrau mis Awst. Er gwaethaf y tywydd gwael ar y penwythnos cyntaf fe wellodd pethau a chafwyd nifer o uchafbwyntiau.

Llongyfarchiadau i John Roberts a gafodd ei urddo i'r Orsedd yn ei fro enedigol. Fe'i hanrhydeddwyd i'r wisg las am ei gyfraniad i fyd darlledu ac i fyd trafod drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn llenor ac wedi cyhoeddi dwy nofel. Ei enw yn yr Orsedd yw Siôn Bwrw Golwg sy'n adlewyrchu enw'r rhaglen y mae'n ei chyflwyno ar y radio ers blynyddoedd lawer.



(Llun – gwefan y BBC)

Derbyniwyd Nest Gwilym i'r wisg werdd eleni hefyd ar sail ei gradd. Dywedodd fod y seremoni yn brofiad emosiynol ac yn llawn cyd-ddigwyddiadau hyfryd – Beti Wyn yr Arwyddfardd yn olynydd i'w thad fel gweinidog y Priordy Caerfyrddin, Carwyn Siddall gweinidog presennol Llanuwchllyn yn tywys a derbyn y dystysgrif gan Hywel Wyn Edwards ei hewythr.

Roedd eraill o ardal Aberystwyth ymhlith y rhai a urddwyd eleni – Pedr ap Llwyd, Richard Owen, Marion Loeffler a Geraint Lloyd. Urddwyd Mared Emyr Pugh-Evans fel un o brif enillwyr Eisteddfod Ceredigion a derbyniwyd Meleri Wyn James, Manon Wyn Roberts ac Elen Haf Roach ar sail eu gradd.

Llawenydd o'r mwyaf oedd gweld Meleri Wyn James yn codi yn y pafiliwn brynhawn Mercher i dderbyn y Fedal Ryddiaith. Mae ei nofel, *Hallt*, yn arbennig iawn, ewch ati i'w darllen. Cynhelir noson i ddathlu buddugoliaeth Meleri ar ben Consti nos Iau 28 Medi, lleoliad addas iawn o ystyried y nofel.

Enillodd Morgan Owen o Aberystwyth ar yr ysgrif a braf oedd gweld un sydd wedi ymgartrefu yn Aber wedi cyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn hefyd, sef Tom Trevarthen.

Ymhlith y rhai a ddaeth i'r brig ar y llwyfan oedd: Helen Medi Williams yn cael 3ydd efo Carol ei chwaer ar y ddeuawd gerdd dant; Llŷr Eirug yn 3ydd ar yr unawd cerdd dant 16-21 oed; Efan Williams yn 2il ar yr Unawd Tenor; Gwynne Jones yn 3ydd ar Ganu Emyn; Gruffydd Siôn yn 3ydd ar Unawd Pres dan 16 oed a Pharti Cyd yn 1af ar y Parti Dysgwyr. Llongyfarchiadau i bawb.

Er na chafodd Drudwns Aber lwyddiant eleni yng nghystadleuaeth y Côr Llefaru, cafwyd mwynhad mawr yn paratoi at y steddfod, yn dysgu gwaith Gerallt Lloyd Owen ac yn cystadlu ar y nos Wener. Mae nifer o ferched y capel yn aelodau o'r Côr Llefaru hwn a byddant yn perfformio yn y noson i anrhydeddu Meleri Wyn James ddiwedd y mis ac yng nghyngerdd Eisteddfodau Cymru ym mis Hydref cyn troi am y brifddinas i gystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant ym mis Tachwedd. Os oes gennych chi ddiddordeb ymuno â'r criw hwyliog cysylltwch ag un o'r aelodau (Nest, Gwenan, Heledd, Lowri neu Rhiannon).



(Llun – S4C)

# Newyddion Yr Ysgol Sul

Braf oedd estyn croeso yn ôl i'r Ysgol Sul ar ôl y gwyliau ar fore Sul, 7 Medi. Trefnwyd Helfa Drysor yn y festri ar y thema *Taith.* Gosodwyd pedwar bwrdd gwag – y cyntaf ar gyfer ymweliad â Bethlehem, yr ail ar gyfer ymweld â Jeriwsalem, y trydydd ar gyfer taith i Philipi a'r olaf ar gyfer lleoedd gwyliau'r plant a'r dychwelyd i Gapel y Morfa. Cafodd y plant y dasg o chwilio am wrthrychau yn gysylltiedig â Stori'r Nadolig i'w gosod ar fwrdd Bethlehem, gwrthrychau yn ymwneud â digwyddiadau Wythnos y Pasg i'w gosod ar fwrdd Jeriwsalem ac yna gwrthrychau yn ymwneud â thaith Paul a Silas i Philipi - eu cyfarfyddiad â Dorcas a Lydia a'u profiad yn y carchar.

**Diolch**

Diolch i Meleri MacDonald am ei gwaith cydwybodol fel Ysgrifennydd Yr Ysgol Sul am nifer o flynyddoedd. Mae'r gwaith wedi ei drosglwyddo i ddwy o'r rhieni, sef Non Llewelyn a Heledd Morgan. Dymunwn yn dda iddynt a gwyddwn y bydd eraill yn barod i'w helpu hefyd.

**Calendr**

| | |
|---|---|
| 24 Medi | Llanllanast Diolchgarwch |
| 1 Hydref | Ymweld â Bwlch Nant yr Arian |
| 16 Hydref | Gwasanaeth Diolchgarwch a Brecwast cyn y gwasanaeth<br>*Casgliad at Water Aid.* |

**Dymuno'n dda**

Mae nifer o'r plant a'r ieuenctid yn dechrau pennod newydd yn eu bywyd – yn dechrau swydd newydd neu yn cychwyn ar gwrs coleg yn lleol neu mewn mannau eraill. Dymunwn yn dda iddynt i gyd.
Mae nifer hefyd wedi bod yn brysur yn ystod yr haf yn dilyn eu diddordebau ym maes chwaraeon, cerddoriaeth a'r byd creadigol. Llongyfarchiadau i bawb.



**Gwyliau'r Haf**

Mae hi bob amser yn braf cael cwmni'r ieuenctid yn yr Ysgol Sul a chael trafodaethau gwerthfawr. Gwyliau'r haf oedd y pwnc un bore Sul, a bu Bu'r misoedd diwethaf yn gyfnod o wyliau i nifer o bobl, a bu'r ieuenctid yn yr Ysgol Sul yn trafod ychydig o'u profiadau.



Bu Mabon Huw a'r teulu yn Sicily eleni, ac yn ôl Mabon, roedd yn "boeth iawn yno, y gwair yn frown a llawer ohono wedi marw. Roedd yno losgfynydd mawr."

Beicio am wythnos yn Ffrainc fu Harri Lawson a'i rieni. Yn ôl Harri, "Taith seiclo anhygoel gawson ni yn Ffrainc – a'r glaw a'r haul yn taro fy nghorff, oedd yn grêt efo un teiar wedi torri! Yr un peth wnaeth fy nghario drwy'r wythnos oedd y bwyd – cefais lawer o croissants a tharten lemon ffres. Y lle gorau gawson ni i fwyta oedd lle'n cael ei alw'n Mama Mia – y bwyd gorau a gefais oedd carbonara a phitsa enfawr."

# Profiad Gwych!



Dros wyliau'r haf, cefais brofiad gwaith gwych gyda Chwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd. Ymunais â thîm cefn llwyfan y cynhyrchiad cyffrous *Deffro'r Gwanwyn*. Treuliais wythnos yng Ngwersyll Llangrannog yn dod i adnabod y cast, ac yn dysgu am y sioe – roedd y tywydd yn braf, ac roedden ni'n gweithio'n galed yn ystod y dydd ac yna'n mwynhau cwmni ein gilydd wrth gerdded i'r traeth i nofio yn y môr gyda'r nos.

Yn ystod yr ail wythnos, symudodd y criw i gyd i gampws y Brifysgol yma yn Aberystwyth, a chawsom gartref proffesiynol yn Theatr y Werin. Fy hoff beth am y profiad oedd cael gwneud gwaith technegol yn ystod y perfformiadau. Gwaith goleuo oedd fy rôl i, a mwynheais y cyfle yn fawr. Daeth cynulleidfa o bob rhan o Gymru i weld y ddau berfformiad, ac roedd yn brofiad arbennig clywed y gymeradwyaeth ar ddiwedd y sioe. Gobeithio y bydd cyfle arall i weithio efo'r Cwmni cyn bo hir.

Gethin Owen-Hughes

# Stryd 'HOPE'

Fel mae sawl un yn gwybod dwi'n cefnogi tîm pêl-droed Lerpwl ac wrth fy modd gyda'r ddinas. Cyd-ddigwyddiad hyfryd ydi bod teulu ochr fy mam wedi byw yno, a hynny yn Anfield. Nhw fel cannoedd os nad miloedd o Gymry eraill o'r gogledd yn tyrru i Lerpwl i chwilio am waith. Cafodd taid ei eni yn 242 Anfield Road ac roedd yn arfer dringo i ben wal i weld i mewn i'r stadiwm! Yn Priory Road, ychydig strydoedd i lawr y cafodd nain ei magu.

Dwi'n hoffi mynd bob hyn a hyn am wyliau byr yn y ddinas ac wedi aros droeon yn yr Hope Street Hotel. Dod ar draws y gwesty i ddechrau pan gafodd Lowri a minnau ein symud yno o westy arall oherwydd 'double booking'. A phan ddychwelais yno ar ben fy hun wedyn er mwyn mynd i weld gêm yn Anfield, darganfod mai yn y gwesty hwnnw roedd tîm Lerpwl yn aros cyn y gemau a'u gweld yn cyrraedd!

Ond nôl at y stryd. Ro'n i wedi tybio ei bod wedi'i henwi ar sail y ffaith bod dwy eglwys gadeiriol ym mhob pen o'r stryd – yr un Anglicanaidd fawr un pen a'r un Gatholig sy'n cael ei galw'n 'Paddy's Wigwam' y pen arall. Ond na, mae'r stryd wedi'i henwi ar ôl William Hope, masnachwr amlwg oedd yn byw ar y stryd. Mae'r stryd yn gartref i nifer o westai, bwytai a bariau a nifer o adeiladau amlwg – Neuadd y Philharmonic, Theatr Everyman, Tafarn rhestredig y Philharmonic a LIPA – y coleg celfyddydau perfformio a sefydlwyd gan Paul McCartney.



Cerflun diddorol nid nepell o'r gwesty yw un i esgob ac archesgob y ddwy eglwys gadeiriol – David Sheppard a Derek Worlock. Y cerflunydd oedd Stephen Broadbent ac fe gynlluniodd gerflun o ddau 'ddrws' efydd gyda symbolau a phenawdau papur newydd o fywydau a gweinidogaeth y ddau ddyn. Drwy'r drysau agored fe allwch weld y ddwy eglwys gadeiriol sy'n arwydd o undod y clerigwyr, a oedd yn cael eu galw'n "fish and chips" gan eu bod gyda'i gilydd bob amser a byth allan o'r papurau!



Y tro diwethaf i mi ymweld â’r ddinas (Medi 2022) fe es draw i’r Eglwys Anglicanaidd. Roedd arddangosfa yno o’r enw ‘Being Human’ a dwy law anferth yn gorchuddio bron i 10 metr o’r llawr. Peter Walker oedd y cerflunydd ac roedd y cerflun, ‘Connection’ yn gerflun o ddwy law fenywaidd fawr, dau fetr o uchder. ‘Twist’ modern ar gampwaith Michelangelo yn y Sistine Chapel, The Creation of Adam, sy’n dangos llaw Duw yn estyn allan i gyfarfod bys Adda. Roedd y bwlch mawr rhwng pob llaw yn cynrychioli ffydd, ag yn symbol o’n cysylltiad â’n gilydd, gan amlygu pwysigrwydd cyswllt dynol a’r unigrwydd neu arwahanrwydd a ddaw o fod ar wahân. Roedd yr artist yn gobeithio y byddai’r darn yn ysbrydoli pobl i estyn allan at eraill yn eu cymunedau eu hunain yn dilyn y pellter a’r arwahanrwydd a brofodd lawer yn ystod y pandemig.

Nest Gwilym

## Hanner Marathon Caerdydd




Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dewis NSPCC Cymru fel ei helusen am eleni a bydd yr arian a godir ar hyd y flwyddyn i gyd yn mynd tuag at wella a datblygu ei wasanaethau Cymraeg.

Ddydd Sul, 1 Hydref, bydd Deian Creunant, ynghyd â rhai o’i gydweithwyr yn Swyddfa’r Comisiynydd yn rhedeg hanner marathon Caerdydd (yr 11$^{eg}$ iddo ei rhedeg) ac yn codi arian i’r elusen hollbwysig hon.

Os hoffech ei gefnogi, siaradwch â Deian neu ewch i’r ddolen: https://www.justgiving.com/page/cyg-wlc2023.

Diolch yn fawr.